Mae'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd (2018) yn pennu ein dull o wella canlyniadau i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, gan gydnabod mai'r menywod hyn yw rhai o'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas a bod y sbardunau ar gyfer eu troseddu, ac adsefydlu effeithiol dilynol, yn aml yn wahanol i rai dynion. Tynnodd y strategaeth sylw at y ffaith bod llawer o'r menywod hyn yn ddioddefwyr, yn ogystal â chyflawnwyr troseddau.

Mae Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd (FOSDP), a gyhoeddwyd yn 2023, yn nodi ymrwymiadau penodol a mesuradwy ar gyfer 2022 i 2025, gan ganolbwyntio ar bedwar nod:

1. Llai o fenywod yn ymuno â'r system cyfiawnder troseddol ac yn aildroseddu.
2. Llai o fenywod yn bwrw dedfrydau byr o garchar gyda chyfran uwch yn cael eu rheoli'n llwyddiannus yn y gymuned.
3. Canlyniadau gwell i fenywod yn y ddalfa.
4. Diogelu'r cyhoedd drwy ganlyniadau gwell i fenywod ar ôl cael eu rhyddhau.

Fel yr ymrwymwyd iddo yn yr FOSDP, mae'r adroddiad canlynol yn nodi lle, yn y 12 mis ar ôl cyhoeddi, mae ymrwymiadau wedi'u cwblhau, wedi'u gwreiddio fel busnes fel arfer, neu ar y gweill. Mae hefyd yn egluro lle mae gwaith wedi cael ei ohirio.

Mae hyn yn cael ei ategu gan ein Dangosfwrdd Metrigau, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, sy'n cyflwyno tueddiadau data dros gyfnod o 5 mlynedd ar gyfer pob metrig yn yr FOSDP. Mae'r dangosfwrdd yn nodi data cyhoeddedig mewn fformat newydd y gellir ei ddadansoddi'n wahanol, gan hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r gwahaniaethau mewn canlyniadau i fenywod. Mae'r adnodd delweddu ar y we hwn yn galluogi defnyddwyr i weld ac addasu siartiau yn seiliedig ar y metrigau allweddol yn yr FOSPD, a bydd yn cael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd pan gyhoeddir ystadegau blynyddol newydd. Mae ar gael yma: [Female Offender Strategy Dashboard .pdf (publishing.service.gov.uk)].

**Llwyddiannau**

Ers cyhoeddi'r FODSP ym mis Ionawr 2023, rydym wedi cwblhau 20 o'r 51 ymrwymiad. Rydym yn gwneud cynnydd da ar y rhan fwyaf o'r ymrwymiadau sy'n weddill ac yn disgwyl i'r rhain gael eu cyflawni erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Cyflawni. Mae enghreifftiau o'r cynnydd hyd yma wedi'u nodi isod.

*Nod 1:* Bu mwy o ffocws ar ymyrraeth gynnar a dargyfeirio, gyda'r nod o weld llai o fenywod yn ymuno â'r system gyfiawnder troseddol ac yn aildroseddu. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- cwblhau'r Adolygiad o'r Llwybr Cyswllt a Dargyfeirio (L&D) i Fenywod. Mae hyn wedi galluogi datblygu a lledaenu egwyddorion allweddol i sicrhau gwasanaeth L&D i fenywod o ansawdd uchel sy'n benodol i rywedd.
- buddsoddi hyd at £14 miliwn mewn 40 o ganolfannau ac elusennau menywod rhwng 2022-25. Mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi menywod sydd yn y system gyfiawnder troseddol, neu sydd mewn perygl o ymuno â'r system, drwy ddarparu cefnogaeth gyfannol i fynd i'r afael â rhesymau dros droseddu, fel materion iechyd meddwl, anghenion llety, profiad o gam-drin, a materion ariannol.
- adeiladu ar ein Concordat (2020), a oedd yn darparu arweiniad i gefnogi ardaloedd lleol i weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ac amlasiantaethol wrth ddarparu gwasanaethau i fenywod mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â hi, llawer ohonynt ag anghenion lluosog a chymhleth. Ar ben hynny, rydym yn

buddsoddi £1 miliwn arall rhwng 2022 a 2025 mewn pedair ardal ranbarthol i helpu i ddatblygu Dulliau System Gyfan aml-asiantaeth.

*Nod 2:* Mae gwaith sylweddol wedi'i gwblhau hefyd i gefnogi'r gwaith o reoli menywod yn effeithiol yn y gymuned:

- Ym mis Mehefin 2023, fe wnaethom gyhoeddi gwerthusiad o gynllun peilot sy'n ymwneud ag adroddiadau cyn-dedfrydu'r (PSR) gwasanaeth prawf. Roedd hyn yn profi model darparu amgen i gynyddu ansawdd a nifer y PSRs ar gyfer grwpiau blaenoriaeth gan gynnwys menywod. O ganlyniad, mae elfennau llwyddiannus o'r cynllun peilot wedi'u hintegreiddio i'r ddarpariaeth genedlaethol, gan gynnwys parhau i nodi a pharatoi achosion yn gynnar ar gyfer PSRs a dargedir ar gyfer menywod lle bo hynny'n briodol.
- Yn rhanbarth Canol De Lloegr, mae'r gwasanaeth prawf wedi lansio prosiect 'Cynllun Braenaru ar gyfer Gwell Cyngor Cyn Dedfrydu' (PIPA). Er mwyn helpu i gefnogi dedfrydu cyflym, bydd menywod yn awr yn derbyn Adroddiadau Cyn Dedfrydu ysgrifenedig llawn sy'n rhoi gwybodaeth benodol i'r llys am ei hamgylchiadau ac addasrwydd gwahanol opsiynau dedfrydu. Bydd y gwelliant hwn yn helpu i ddargyfeirio menywod oddi wrth ddedfrydau byr o garchar tuag at opsiynau cymunedol mwy effeithiol.
- Rydym wedi datblygu deunyddiau briffio ar gyfer y farnwriaeth i godi ymwybyddiaeth o'r materion penodol sy'n wynebu menywod a'r opsiynau dedfrydu cymunedol sydd ar gael. Mae'r deunyddiau hyn wedi cael eu rhannu mewn digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol presennol gyda chydweithwyr barnwrol (gan gynnwys dedfrydwyr a chynghorwyr cyfreithiol) a'u cyflwyno i ymarferwyr llys rheng flaen.
- Ym mis Mehefin 2023, fe wnaethom ddechrau treialu Llysoedd Goruchwylio Dwys (ISC), sy'n dargyfeirio troseddwyr i ffwrdd o ddedfrydau byr o garchar ac i ddedfrydau cymunedol gwell. Nod ISCs yw targedu achosion sylfaenol ymddygiad troseddol drwy ddarparu cymorth aml-asiantaeth cofleidiol i fynd i'r afael ag anghenion sylfaenol troseddwyr. Mae ISC i fenywod yn cael ei dreialu yn Llys Ynadon Birmingham, gyda dau ISC camddefnyddio sylweddau yn Llys y Goron Teesside a Llys y Goron Lerpwl. Bydd y cynllun peilot yn para am 18 mis ac mae'n destun rhaglen fonitro a gwerthuso gynhwysfawr, a fydd yn asesu gwahanol agweddau ar yr ISC gan gynnwys yr effaith ar ganlyniadau troseddwyr, yn ogystal â'u gwerth am arian.
- Gan ymateb i'r galw, mae gallu'r gwasanaeth prawf i brofi'r rheini sydd â gofynion adfer cyffuriau (DRR) wedi cynyddu. Cyfanswm y DRRs a gychwynnwyd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023 oedd tua 1,690 – cynnydd o 12.2% o'r un cyfnod yn 2022. Erbyn hyn, gall y Gwasanaeth Prawf fonitro cydymffurfiad yn fwy effeithiol ac mae wedi cyflwyno adnodd sgrinio i helpu i ganfod anghenion cyffuriau a thynnu sylw'r llys at y rhain cyn dedfrydu. I gefnogi'r ddarpariaeth hon, mae dros 50 o Gydlynwyr Iechyd a Chyfiawnder wedi cael eu recriwtio ar draws pob rhanbarth prawf.

*Nod 3:* Mae rhai menywod wedi cyflawni troseddau mor ddifrifol fel mai carchar yw'r unig opsiwn dedfrydu sydd ar gael i'r llys. Er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r menywod hyn, rydym yn buddsoddi hyd at £14 miliwn rhwng 2022 a 2025 i sicrhau bod y ddalfa yn cynnig cymorth adsefydlu i fenywod ac amgylchedd lle gallant fynd i'r afael â gwraidd eu hymddygiad troseddol.

- Rydym yn ariannu swyddi arbenigol a fydd yn ein helpu i ddiwallu anghenion menywod yn well. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr teulu ychwanegol i gefnogi perthnasoedd â phlant;

cyflwyno pedwar gweithiwr cymdeithasol mewn carchardai i fenywod; arweinwyr iechyd ac amenedigol wedi'u recriwtio i'r holl Unedau Mam a Babi; a gweithwyr Cam-drin Domestig a Rhywiol wedi'u recriwtio i saith carchar i fenywod
- Mae gwasanaeth Dyddiau Cynnar wedi cael ei roi ar waith mewn pum carchar i fenywod er mwyn cynyddu'r gefnogaeth i fenywod yn ystod y cyfnod heriol hwn.
- Rydym yn cydnabod bod Oedolion Ifanc benywaidd yn wynebu heriau penodol yn y ddalfa ac rydym wedi rhoi cynlluniau peilot ar waith mewn dau garchar i fenywod sydd â'r nod o wella canlyniadau ar gyfer y garfan hon.
- Mae gan staff rôl allweddol o ran cefnogi menywod yn y ddalfa, ac rydym wedi cyflwyno hyfforddiant pwrpasol ar gyfer swyddogion carchar newydd yn ystâd y Merched.

Bydd y mesurau hyn yn darparu cymorth hanfodol i fenywod yn y ddalfa a fydd yn helpu i wella diogelwch, gan gynnwys lleihau'r lefelau uchel o hunan-niweidio ymysg menywod sy'n garcharorion, a gwella canlyniadau adsefydlu.

*<u>Nod 4:</u>* Mae amrywiaeth o waith wedi'i wneud i wella canlyniadau i fenywod ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa, gan gynnwys:

- Penodi Gweinyddwyr Dogfennau Adnabod (ID) a Bancio ym mhob carchar i fenywod i sicrhau bod gan fenywod gyfrifon banc wrth adael y ddalfa.
- Mae arweinwyr cyflogaeth carchardai wedi cael eu recriwtio, ac mae Hybiau Cyflogaeth a Byrddau Cynghori wedi cael eu sefydlu ym mhob carchar i fenywod er mwyn gwella siawns menywod o gael swydd ar ôl cael eu rhyddhau.
- Cyflwyno naw Arbenigwr Tai Strategol cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio ar draws ystâd y menywod. Maent yn gyfrifol am gryfhau'r gwaith partneriaeth gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, a darparwyr tai, i leihau nifer y bobl sy'n gadael carchar sy'n cael eu rhyddhau i ddigartrefedd.
- Rydym wedi datblygu canllawiau penodol i fenywod i ganolbwyntio ar y rhwystrau sy'n wynebu menywod sy'n gadael y carchar ac i nodi enghreifftiau o arferion da.

Mae un maes yn yr FOSDP lle rydym wedi wynebu heriau arbennig o sylweddol, sydd wedi'n harwain at adolygu cynlluniau cyflawni ar gyfer ein hymrwymiad i ehangu'r ystâd carchardai i fenywod er mwyn creu mwy o leoedd agored mewn carchardai, gan ddarparu mwy o ledaeniad daearyddol a helpu gydag anghenion adsefydlu. Mae adeiladu carchardai yn brosiectau cyfalaf cymhleth, sy'n cael eu cyflawni o fewn amodau marchnad heriol. Yn yr un modd â rhaglenni adeiladu eraill, mae lefelau uchel o chwyddiant wedi effeithio ar gynlluniau, sydd wedi cael effaith sylweddol ar amcangyfrif costau. Yng nghanol yr heriau cyllidol parhaus hyn, rydym yn cymryd agwedd gyfrifol ac yn oedi ein cynlluniau i adeiladu, wrth i ni ystyried effaith pwysau o'r fath. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ddarparu dulliau gweithredu sy'n benodol i rywedd ac sy'n seiliedig ar drawma (GSTI) a fydd yn cefnogi adsefydlu mwy effeithiol i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, ac rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu dyluniadau ar gyfer llety GSTI agored a chaeedig ar gyfer ystâd y menywod. Rydym wedi sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer tri o'r pum safle (yn achos un safle mae hyn yn amodol ar gytundeb Adran 106), gyda gwaith yn parhau i sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y ddau arall. Bydd y gwaith dylunio GSTI a gwblhawyd hyd yma yn ein rhoi mewn sefyllfa dda, yn amodol ar ystyriaethau cyllidol, ar gyfer argymell adeiladu llety o'r fath yn y dyfodol. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein canlyniadau mewn perthynas â menywod yn y ddalfa.

**Ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod**

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym wedi ymrwymo o hyd i weithredu'r FOSDP yn llawn. Byddwn hefyd yn ymateb i heriau a chyfleoedd yn y cyd-destun sy'n newid ers cyhoeddi'r Cynllun. Bydd y prif feysydd ffocws yn cynnwys:

*Galw a Chapasiti:* Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor becyn o fesurau i fynd i'r afael â'r pwysau ar ein hystâd carchardai, rhai ohonynt wedi cael eu cyflwyno yn y Bil Dedfrydu ac yn awr yn cael eu hystyried gan y Senedd. Rydym yn rhagweld y bydd y rhagdybiaeth arfaethedig i atal dedfrydau o garchar am lai na 12 mis, er y bydd yn berthnasol i ddynion a menywod, yn debygol o gael effaith benodol ar fenywod sy'n troseddu – yn 2022, roedd 70% o'r dedfrydau o garchar uniongyrchol i fenywod o dan 12 mis, o'i gymharu â 56% i ddynion. Bydd dedfrydau unigol yn amodol ar ddisgresiwn barnwrol, a bydd llawer o fenywod yn treulio dedfrydau cymunedol cadarn, a allai gynnwys monitro electronig, cyrffyw, neu ofyniad preswyl, ochr yn ochr â chael cymorth i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol.

*Remand*: Mae cynnydd o 25% wedi bod ym mhoblogaeth menywod ar remand rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Rhagfyr 2023. Ym mis Rhagfyr 2023, roedd menywod ar remand yn cyfrif am 22% o boblogaeth carchardai menywod. Wrth fynd i'r afael â hyn, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Farnwriaeth. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ceisio canfod a chwalu ymhellach y rhwystrau presennol sy'n atal menywod rhag defnyddio mechnïaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd o osod amodau mechnïaeth llys a gaiff eu monitro'n electronig (EM) fel dewis arall yn lle remandio diffynyddion yn y ddalfa, lle bo hynny'n briodol.

*Llety preswyl yn y gymuned:* Roedd cymeradwyo caniatâd cynllunio ar gyfer y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn Abertawe yn garreg filltir allweddol ar gyfer y gwaith hwn. Tra ein bod yn ystyried y camau nesaf ar gyfer safle Abertawe, rydym yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth drwy ein cyllid grantiau cymunedol, gan gefnogi cyfleusterau preswyl newydd sy'n cynnig dewis arall yn lle carcharu.

*Iechyd:* Rydym yn cydnabod bod gan lawer o fenywod sy'n droseddwyr anghenion iechyd sylweddol, gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd sylweddol, problemau iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau. Mewn partneriaeth â GIG Lloegr a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, rydym yn treialu Hyb Iechyd a Chyfiawnder Rhanbarthol yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Bydd hyn yn cael ei gynnal drwy gydol 2024, o leiaf, ac mae'n ceisio gwella'r ffordd y mae llysoedd, gwasanaethau iechyd a charchardai yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i gefnogi diffynyddion sydd â salwch meddwl difrifol yn well drwy eu cyfeirio at y driniaeth briodol, boed hynny yn yr ysbyty neu yn y gymuned.

Byddwn yn parhau i weithio i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ofynion triniaeth dedfrydau cymunedol. Erbyn canol 2024, bydd Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl gofal sylfaenol ar gael i ddedfrydwyr ym mhob llys troseddol, gyda llwybrau penodol i fenywod i sicrhau bod cymorth yn cael ei deilwra i anghenion penodol menywod.

Dangosodd yr *Adolygiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Menywod* o ystâd carchardai menywod (Tachwedd 2023), a gadeiriwyd yn annibynnol, fod gan fenywod yn y carchar lefelau uwch ac anghymesur o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol na'u cymheiriaid gwrywaidd. Bydd Bwrdd newydd ar y cyd rhwng GIG Lloegr a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn datblygu cynllun cyflawni tair blynedd erbyn gwanwyn 2024, a fydd yn cael ei ategu gan £21m o gyllid iechyd.

*Tystiolaeth:* Byddwn yn parhau i adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr hyn sy'n gweithio i fenywod i wella canlyniadau ar bob cam o'r system gyfiawnder. Bydd hyn yn helpu i hysbysu rhaglenni gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys buddsoddiadau ac ymyriadau, gan sicrhau bod gennym system cyfiawnder troseddol sy'n mynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion penodol menywod drwy ddull gweithredu sy'n benodol i rywedd ac sy'n ymateb i drawma.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan newidiadau strwythurol parhaus yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, a fydd yn galluogi cydweithio agosach rhwng Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf, gan roi cyfle i ddatblygu model cyflawni gweithredol mwy cyson sy'n cyd-fynd â nodau FOSDP. Ein huchelgais yw datblygu a rhannu model sy'n sicrhau taith gydlynol i fenywod sy'n bwrw dedfrydau yn y ddalfa ac yn y gymuned, gan daro cydbwysedd rhwng cysondeb cenedlaethol a hyblygrwydd rhanbarthol.